# Hysbyseb Swydd

**Swyddog Cyfathrebu a Marchnata**

**Ystod Cyflog: GO3 (£4,112- £4,181)**

**Mae hon yn swydd barhaol o oddeutu 7.5 awr (1 diwrnod) yr wythnos, tymor ysgol yn unig, lle rhennir y swydd gyda'r deiliad swydd presennol. Union oriau i'w cytuno â'r ymgeisydd llwyddiannus mewn cyfweliad.**

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Dydd Llun Ionawr 6ed 2025**

**Dyddiad cychwyn yn y swydd: Chwefror 2025 neu mor fuan â phosibl.**

Rydym yn awyddus i apwyntio person brwdfrydig a llawn cymhelliant i ddatblygu a chynnal systemau cyfathrebu mewnol ac allanol yr ysgol. Bydd y person hwn yn gweithio'n annibynnol ac yn greadigol er mwyn:

- codi proffil yr ysgol yn y gymuned leol drwy hyrwyddo ein brand,
- cynnal ein proffil yn y cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol,
- cynnal gwefan yr ysgol,
- trefnu cyhoeddi prosbectysau a dogfennau eraill
- cynnal systemau cyfathrebu mewnol, bwletinau ac arddangosfeydd.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio rhan amser gan rannu swydd gyda deiliad presennol y swydd, yn dilyn cyfnod sefydlu a hyfforddiant.

Mae'n adeg gyffrous i ymuno ag Ysgol Aberconwy, sef ysgol gyfun gymysg sy'n gofalu am 1100 o ddisgyblion 11-18 oed. Mae'r ysgol wedi ei lleoli ar safle newydd sbon ar lan Afon Conwy brydferth, yn nhref ganoloesol Conwy ar arfordir Gogledd Cymru, yn agos i Barc Cenedlaethol Eryri. Mae agosrwydd Ysgol Aberconwy at ffordd ddeuol yr A55 yn hwyluso'r daith i bob rhan o Ogledd Cymru, Sir Gaer a'r Wirral. Mae'r ysgol yn cynnig adnoddau ardderchog, ac mae gan bob athro fynediad at dechnoleg bersonol ynghyd ag ystafelloedd TGCh ar gyfer eu maes cwricwlwm.

Mae'r amrywiaeth o fewn cymuned yr ysgol yn sicrhau bod yr ysgol yn lle bywiog a diddorol i weithio. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dangos gallu i drefnu a chyfathrebu i safon uchel yn gyson, a bydd ganddynt brofiad o weithio gyda phlant ag amrywiaeth o anghenion dysgu.

Rydym yn cynnig:

- Rhaglen fentora gadarn a chynhwysfawr
- Rhaglen datblygiad proffesiynol a hyfforddiant gadarn ar gyfer athrawon a staff cynorthwyol, wedi'i theilwra ar eich cyfer.
- Cysylltiadau cryf ag ysgolion lleol eraill ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a chefnogaeth.
- Ysbryd cymunedol cryf.
- Staff cefnogol iawn.

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **SWYDD:** | Swyddog Cyfathrebu a Marchnata |
| **YSTOD CYFLOG:** | G03 |
| **ATEBOL I:** | Pennaeth Cynorthwyol |

**PWRPAS Y SWYDD**

- Cyfrifoldeb dros gynnal gwefan yr ysgol gan sicrhau ymagwedd weithredol tuag at asesu a diweddaru cynnwys.
- I ddarparu arweiniad a chefnogaeth i staff er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o’r wefan a mewnrwyd yr ysgol a sicrhau ymgysylltiad staff â’r pyrth hyn.
- Cyfrifoldeb dros gynnal mewnrwyd yr ysgol a datblygu ei phresenoldeb cyfryngau cyhoeddus.
- Dan gyfarwyddyd/arweiniad staff uwch, i fod yn gyfrifol am drefnu a diweddaru prosesau cyfathrebu mewnol ac allanol o fewn yr ysgol.
- Cynorthwyo i gynllunio a datblygu prosesau cyfathrebu.
- Sicrhau bod yr ysgol yn gallu cyfathrebu a chyhoeddi ei gwybodaeth a’i chyflawniadau i ystod eang o gynulleidfaoedd.
- Dylunio a chynhyrchu cyhoeddiadau ysgol swyddogol (e.e. prosbectysau), hysbysebion, papur ysgrifennu ayb.).

**DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU – PENODOL I’R SWYDD**

- Rheoli cyfryngau cyhoeddus drwy lunio eitemau, cynyddu dilynwyr / hoffwyr tudalennau, hyrwyddo ymgysylltu ac ateb cwestiynau
- Trefnu a chreu cysyniad ar gyfer yr holl ffotograffiaeth a fideograffeg farchnata. Rheoli’r llyfrgell delweddau digidol a phrosesu ceisiadau am ddelweddau gan randdeiliaid mewnol ac allanol a busnesau
- Cynnal cofnodion marchnata ac ysgrifennu adroddiadau a gynhyrchir ar gyfer y Pennaeth a’r Llywodraethwyr Ysgol
- Cynghori ar wneud defnydd effeithiol o ddatblygiadau yn y wefan yn y dyfodol.
- Ysgrifennu copi a sicrhau bod pyrth cyfathrebu’r ysgol yn gyflawn ac wedi’u diweddaru, gan gynnwys y wefan, fewnrwyd, sgriniau arddangos, cylchlythyrau, prosbectws ysgol a’r bwletinau.
- Cyfrifoldeb dros gynnwys a chynnal gwefan yr ysgol gan sicrhau ymagwedd weithredol tuag at asesu a diweddaru cynnwys.
- Cysylltu â chyflenwyr allanol, cynorthwyo i gaffael, cynhyrchu a chyflwyno deunydd marchnata, gan sicrhau bod yr holl lenyddiaeth hyrwyddo argraffedig yn cael ei dosbarthu’n effeithiol.
- Cynhyrchu datganiadau i’r wasg a rheoli ymholiadau gan y wasg.
- Gweithredu offer a phecynnau TGCh a Chlywedol perthnasol.
- Cyflawni tasgau teipio, prosesu geiriau a thasgau sy’n seiliedig ar DG sy’n gysylltiedig â’r swydd.
- Gwirio byrddau arddangos yr ysgol yn rheolaidd a rhoi gwybod am unrhyw gamau sydd angen eu cymryd.
- Monitro a rheoli adnoddau cysylltiedig o fewn cyllid a gytunwyd, catalogio adnoddau a chynnal archwiliadau yn ôl yr angen.

# Penodol i'r Unigolyn

| Ffactor | Gofynion | Tystiolaeth | Pwysigrwydd<br>H – Hanfodol<br>D – Dymunol |
|---|---|---|---|
| **Gwybodaeth a Sgiliau** | Addysg hyd at radd a/neu gymhwyster cyfatebol | FfG/C/G | D |
| | NVQ Lefel 3 neu gymhwyster neu brofiad cyfatebol mewn disgyblaeth berthnasol | FfG/C/Gw | H |
| | Profiad perthnasol mewn marchnata a chyfathrebu. | FfG/C/G | D |
| | Gwybodaeth weithiol a phrofiad trylwyr a defnydd o sianeli cyfryngau cyhoeddus | FfG/C/C | H |
| | Gwybodaeth drylwyr o gymwysiadau Microsoft Office a phecynnau meddalwedd perthnasol eraill. | FfG/C/G | H |
| | Profiad o gyfathrebu a datblygu perthynas dda â staff, ar bob lefel, a rhanddeiliaid gan ddefnyddio cyfyngau amrywiol. | FfG/C | H |
| | Sgiliau cyfathrebu rhagorol drwy gyfrwng y Saesneg, yn ysgrifenedig ac ar lafar, gan ddangos manwl gywirdeb sylweddol. | FfG/C | H |
| | Gwybodaeth am weithdrefnau a dulliau gweithredu'r Wasg a sectorau hysbysebu a ffotograffiaeth y Wasg/fasnachol. | FfG/C/G | H |
| | Ymrwymiad i ddiweddaru eich gwybodaeth a sgiliau. | FfG/C | H |
| | Gallu i drefnu a chynllunio eich baich gwaith a rhagweld anghenion y dyfodol. | FfG/C | H |
| | Gallu i weithio'n ymreolaethol dan bwysau mewn amgylchedd swyddfa ddynamig, gadw at derfynau amser a rheoli'n annibynnol flaenoriaethau sy'n gwrthdaro. | FfG/C | H |
| | Rhuglder yn y Gymraeg. | FfG/C | H |
| | Dealltwriaeth o'r angen i gyfathrebu'n ddwyieithog | C | H |
| **Creadigrwydd & Dyfeisgarwch** | Gallu i fod yn greadigol ac yn ddyfeisgar | FfG/C | H |
| | Y gallu i gymryd ffotograffiaeth o ansawdd a golygu delweddau yn ôl yr angen | FfG/C | H |
| | Gallu i ddeall a delio ag ystod o feysydd gorchwyl sy'n ymwneud â gwahanol agweddau ar waith yr ysgol. | FfG/C | H |
| | Gallu i drefnu baich gwaith o fewn amgylchedd dynamig ac ymateb ar unwaith ac yn effeithiol i anghenion a gofynion annisgwyl. | FfG/C | H |
| | Gallu i ymchwilio i lwybrau newydd ar gyfer datblygu a chyfleoedd marchnata yn y dyfodol. | FfG/C | H |
| **Cysylltiadau & Pherthnasau** | Gallu i integreiddio i wahanol amgylcheddau tîm a gweithio'n effeithiol fel rhan ohonynt. | FfG/C | H |
| | Gallu i gyfathrebu gyda myfyrwyr, rhieni a gofalwyr yn effeithiol. | FfG/C | H |
| | Gallu i ddarparu cyngor ac arweiniad arbenigol i'r UDA, gan gyflwyno cysyniadau technegol dieithr mewn ffordd sensitif a chefnogol. | FfG/C | D |
| | Gallu i greu a chynnal perthynas gyson â chyflenwyr cyfryngau allanol fel y wasg, teledu a radio. | FfG/C | H |
| **Penderfyniadau** | Ymwybyddiaeth o effaith a goblygiadau posibl deunydd cyhoeddusrwydd neu gyfathrebu ar yr ysgol. | FfG/C | H |
| | Gallu i wneud penderfyniadau ymreolaethol wrth gyflawni ac archwilio tasgau technegol yn barhaus. | FfG/C | H |
| **Adnoddau** | Cyfrifoldeb dros offer ffotograffig swyddogol yr ysgol. | C | H |
| **Gofynion y Gwaith** | Gallu i ymateb yn effeithiol i ymyriadau rheolaidd neu fynych, addasu'r rhaglen o dasgau ar unwaith yn unol â hynny a delio ag unrhyw flaenoriaethau gwrthdrawiadol a allai godi. | FfG/C | H |
| **Gofynion Corfforol** | Gallu i ymdopi â defnydd dwys o gyfrifiaduron. | FfG/C | H |

FfG – Ffurflen Gais    C – Cyfweliad    G – Geirda    Gw - Gwiriad

